

Uwchsain rhydweli arenol

Beth yw hwn?

Bydd sgan uwchsain rhydweli arenol yn edrych i weld a oes culhau yn y brif bibell waed sy'n cyflenwi'r arenau. Mae hefyd yn edrych ar lif y gwaed o fewn yr arenau.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae eich meddyg wedi eich atgyfeirio am y prawf hwn oherwydd efallai bod eich pwysedd gwaed wedi bod yn uwch na'r arfer. Un o swyddi'r arenau yw rheoli pwysedd gwaed. Os yw'r cyflenwad gwaed i'r arenau yn cael ei leihau (oherwydd bod y rhydweli'n gul) gall hyn achosi pwysedd gwaed uchel. Gall symptomau eraill gynnwys cadw hylif (lle mae'r corff yn dal gormod o ddŵr), gall hyn arwain at fferau chwyddedig neu ddiffyg anadl.

Sut mae uwchsain rhydweli arenol yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Bydd gofyn i chi orwedd ar eich cefn a throï ar bob ochr ar gyfer y sgan. Byddwn yn gofyn i chi ddangos eich stumog a'ch cefn a bydd hancesi bapur yn cael eu defnyddio i ddiogelu eich dillad. Bydd gwyddonydd clinigol (a allai fod yn wryw neu'n fenyw) yn cyflawni ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Bydd y goleuadau'n cael eu gostwng fel bod y gwyddonydd yn gallu gweld y sgrin yn well. Rhoddir gel ar y chwiliedydd a bydd y gwyddonydd yn sganio ardal eich arenau. Efallai y rhoddir rhywfaint o bwysau ar yr ardal i helpu gweld yr arenau'n




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

well. Efallai y gofynnir i chi ddal eich anadl yn ystod y sgan.
Mae hyn yn arferol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canfyddiadau a bydd adroddiad yn cael ei ysgrifennu ar gyfer y meddyg a ofynnodd am y sgan. Byddwch yn gallu trafod canlyniadau'r archwiliad yn llawn gyda'r tîm atgyfeirio yn ystod eich apwyntiad ffôn/claf allanol nesaf.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board